Archwiliad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri
Snowdonia Local Development Plan Revision Examination

Richard Duggan BSc(Hons) DipTP MRTPI
Arolygydd Cynllunio / Planning Inspector
Rhian Randall: Swyddog Rhaglen / Programme Officer
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol /
National Park Office
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

Ffôn / Tel 01766 772203
swyddogrhaglen@eryri.llyw.cymru
programmeofficer@snowdonia.gov.wales

2 Gorffennaf 2018

Llythyr gan y Swyddog Rhaglen i Gynrychiolwyr - Anfonwyd trwy e-bost

Annwyl Syr/Fadam,

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Archwiliad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031

Sesiynau Gwrandawiad – cychwyn Dydd Mawrth 17eg Gorffennaf – Dydd Iau 19eg Gorffennaf

Ymhellach i ohebiaeth flaenorol, ysgrifennaf i'ch cynghori fod y dogfennau a restrir isod ar gael i'w gweld / lawrlwytho ar wefan yr Archwiliad yn y fan hon:- http://www.eryri.llyw.cymru/SesiynauGwrandawiad.

Agendas Materion a Phethau sy'n Codi ar gyfer pob Sesiwn Gwrandawiad, fel a ganlyn:

Sesiwn Gwrandawiad 1: Pennod 2 Y Strategaeth Ddatblygu a Phennod 5 Cymunedau Iach a Chynaliadwy – Darpariaeth Tai

10.00yb Dydd Mawrth 17 Gorffennaf 2018

Sesiwn Gwrandawiad 2: Pennod 6 Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy – Economi / Cyflogaeth, Twristiaeth a Manwerthu

9.30yb Dydd Mercher 18 Gorffennaf 2018

Sesiwn Gwrandawiad 3: Penodau 3 & 4 Yr Amgylchedd Naturiol, Diwylliannol a Hanesyddol

9.30yb Dydd Iau 19 Gorffennaf 2018

Mae'r holl ddogfennau eraill sy'n berthnasol i'r Sesiynau Gwrandawiad, gan gynnwys yr Amserlen a Rhestr Presenoldeb, Nodiadau Cyfarwyddyd yr Arolygydd a Datganiadau a gyflwynwyd mewn perthynas â phob Sesiwn Gwrandawiad hefyd are gael i'w gweld / lawrlwytho. Pe baech yn cael unrhyw anhawster wrth geisio cael mynediad at y wefan neu wrth lawrlwytho'r dogfennau, cysylltwch â mi (manylion uchod) a gallaf naill ai anfon e-bost neu gopïau papur atoch.

Sylwer fod yr Amserlen ddraft a Rhestr Presenoldeb yn ddogfen 'fyw' a bydd yn ddarostyngedig i newid - dylai cynrychiolwyr wirio'r wefan yn rheolaidd i weld diweddariadau / newidiadau i'r rhaglen.

Mae'r Gwrandawiadau yn agored i'r cyhoedd i'w arsylwi, ond dim ond y rhai sydd wedi gwneud sylwadau perthnasol a gwneud cais i siarad fydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y Gwrandawiadau.

Dylai unrhyw un sydd ag anghenion neu ofynion arbennig yn ystod yr Archwiliad gysylltu â mi cyn gynted â phosib. Bydd system ddolen glyw ar gael yn y Gwrandawiadau.

Peidiwch ag oedi i gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch ynglŷn â'r Archwiliad.

Yr eiddoch yn gywir,

Rhian Ll. Randall

Rhian Randall
Swyddog Rhaglen